

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)



Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Cynnwys

Datganiad y Prif Weithredwr	3
Crynodeb Gweithredol	4
Canfyddiadau Allweddol	4
Cyflwyniad	5
Y Polisi ynghylch Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	6
System Rheoli'r Amgylchedd	7
Agweddau ac Effeithiau	8
Adolygu Targedau 2019-20	9
Perfformiad mewn perthynas â'r Amgylchedd	
Ynni	13
Cludiant	15
Gwastraff	17
Da Byw Glynllifon	20
Plannu Coed yng Nglynllifon	20
Adeiladu Mesurau Effeithlonrwydd	21
Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr	22
Dŵr	23
Papur	25
Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth	26
Atal Llygredd	26
Y Gadwyn Gyflenwi	26
Deddfwriaeth	27
Archwiliadau	27
Bioamrywiaeth	28
Ynni Adnewyddadwy	29
Cymunedol	
Grŵp Ffocws Amgylcheddol	30
Cyfathrebu	31
Targedau i'r Dyfodol	31
Amcanion a Thargedau 2021-22	32

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2020/21 Grŵp Llandrillo Menai ar ei System Rheoli'r Amgylchedd.

Mae'r Grŵp wedi gweithredu rhaglen o gynlluniau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd dros gyfnod o flynyddoedd, ac rwy'n falch o'r cynnydd gwirioneddol sy'n cael ei gynnal ledled y colegau.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i barhau ar Lefel 5 o ran Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016). Eleni, yn debyg i'r llynedd, yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd asesiad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar-lein gan ganolbwyntio at ein Systemau Rheoli Amgylcheddol. Rwy'n falch iawn o gael dweud ein bod yn cynnal ein safon Lefel 5.

Yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwr darparwr addysg bellach mwyaf Cymru, rwyf wedi ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol y Grŵp, gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hyd eithaf ein gallu, ac yn bwysicach na dim, gan leihau effaith ecolegol y Grŵp.

Llofnod



Dafydd Evans

Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Crynodeb Gweithredol

Yn yr adroddiad hwn, sonnir am berfformiad amgylcheddol Grŵp Llandrillo Menai yn ystod 2020-21.

Yn ystod 2021-21, oherwydd pandemig y Coronafeirws, gostyngwyd nifer y myfyrwyr ar y campysau, a daeth dysgu cyfunol i gymryd lle mwyafrif yr addysgu wyneb yn wyneb. Roedd mwyafrif y staff yn gweithio yn eu cartrefi neu gymysgedd o weithio ar y campws a gartref. Mae hyn wedi cael effaith enfawr ar berfformiad amgylcheddol y Grŵp ac o'r herwydd, er bod yr ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gywir, nid ydynt yn adlewyrchu'r drefn weithredu arferol.

Wrth bennu targedau 2020-21 ym mis Medi 2020, pennwyd y targedau yn erbyn perfformiad 2018-19 oherwydd credwyd y byddai bywyd yn y Coleg yn dychwelyd i ryw fath o 'normal'. Fodd bynnag, cyflwynwyd mwy o fesurau'r cyfnod clo a oedd yn golygu bod mwyafrif y myfyrwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar-lein.

Canfyddiadau Allweddol

Yn 2020/21:

- Defnyddiodd y Grŵp gyfanswm o 12, 115,969 kWh o ynni, sef lleihad o 1.6% o gymharu â 2018-19. Cyfanswm cost yr ynni oedd £1,114,421 - arbediad o £1,000,023 o gymharu â 2018/19. Roedd hyn yn cynnwys:
 - Cynnydd o 11.8% yn y nwy a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp.
 - Lleihad o 18.6% yn y trydan a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp.
 - Lleihad o 22.8% yn y propan a ddefnyddiwyd yng Nglynllifon.
- Cafwyd lleihad o 58% yn y milltiroedd a deithiodd staff yng ngheir y coleg a lleihad o 47% yn y defnydd o fysiau mini'r coleg. Cafwyd lleihad o 79% yn y milltiroedd a deithiodd staff yn eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg, i 267,111 milltir. Yn 2020-21, y gost yn sgil staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg oedd £138,634, sef arbediad o £381,514 o gymharu â 2018-19.
- Cynhyrchodd y Grŵp 641 tonn o wastraff, gan ailgylchu 535 tonn ohono. Cafwyd lleihad o 18% yn y gwastraff a gynhyrchwyd gan y Grŵp o gymharu â 2018-19. Ailgylchwyd 83% o'r gwastraff ar draws y Grŵp yn 2020-21 – o gymharu â 81% yn 2018-19.
- Defnyddiwyd 48,374m³ o ddŵr, lleihad o 9,169m³ o gymharu â 2018-19, ac arbediad o £30,787.
- Defnyddiwyd 66.5% yn llai o bapur ar gyfer argraffwyr a llungopiwyd o gymharu â 2018-19.
- Cynhyrchodd da byw Glynllifon 465 tonn o allyriadau CO₂.
- Enillwyd 37 tonn o allyriadau CO₂ yn sgil plannu coed yng Nglynllifon a chynhyrchu ynni o gelloedd ffotofoltäig ar safleoedd Llangedfni, Llandrillo-yn-Rhos a'r Rhyl.
- Cynhyrchwyd 3,477 tonn o allyriadau CO₂, sef gostyngiad o 19.1% o'i gymharu â 2018-19.
- Roedd ein hallyriadau carbon yn cyfateb i 165.6 kgCO₂e fesul dysgwr.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Cyflwyniad

Y Grŵp yw Sefydliad Addysg Bellach mwyaf Cymru ac un o'r grwpiau mwyaf o golegau AB yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Grŵp yn cyflogi 1,645 o staff ac mae'n darparu cyrsiau i tua 21,000 o fyfyrwyr ledled pedair sir, sef siroedd Dinbych (Y Rhyl), Conwy (Llandrillo-yn-Rhos ac Abergele), Ynys Môn (Llangefni a Chaergybi) a Gwynedd (Bangor, Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon a Chaernarfon).

Nod y Grŵp yw effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol, ac anoga staff a myfyrwyr i gefnogi'r genhadaeth hon. Un o nodau eraill y Grŵp yw paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle, gan eu gwneud yn ymwybodol o faterion amgylcheddol.

Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Grŵp

Bydd y Grŵp yn

"Rheoli ei wasanaethau, ei adnoddau a'i gyfleusterau mewn ffordd gynaliadwy"

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Y POLISI YNGHYLCH CYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD

Ffurfiwyd Grŵp Llandrillo Menai fis Ebrill 2012 yn dilyn uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae gan y Grŵp safleoedd yn siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn, ynghyd â darpariaeth mewn nifer o leoliadau yn y gymuned. Darpara amrediad eang o addysg a hyfforddiant llawn a rhan-amser, ar lefel Addysg Bellach ac Uwch. Cyfloga tua 1,645 o staff a bydd tua 21,000 o fyfyrwyr yn cofrestru ar ei gyrsiau bob blwyddyn.

Ymdrecha Grŵp Llandrillo Menai i addysgu ei staff a'i fyfyrwyr am faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd, yn lleol ac yn fyd-eang, gan feithrin eu hymwybyddiaeth o'r sefydliad fel asiant amgylcheddol.

Amcanion y Polisi:

Gwneud cynaliadwyedd, yr arferion amgylcheddol gorau a dinasyddiaeth fyd-eang yn rhan o bob agwedd ar fywyd y Coleg.

Sicrhau y cydymffurfir â phob deddfwriaeth a rhwymedigaeth berthnasol ac y mabwysiedir polisiau a fydd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Sicrhau y datblygir ac y mabwysiedir system reoli amgylcheddol a fydd yn atal llygredd ac yn cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad amgylcheddol y Coleg.

Hybu ymwybyddiaeth pawb yn y Coleg mewn perthynas â defnyddio ynni a dŵr, gan eu hannog i wneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau hyn.

Defnyddio llai o ddeunyddiau ble bynnag y bo modd, ac ymestyn oes deunyddiau ble bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Ailgylchu neu aildefnyddio deunyddiau ble bynnag y bo modd a chael gwared ar wastraff yn y modd sydd fwyaf caredig i'r amgylchedd.

Sicrhau bod y Coleg yn cael cyn lleied o effaith negyddol â phosibl ar yr amgylchedd lleol a'i fod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r gymuned leol a'i hamgylchedd.

Sicrhau bod holl fyfyrwyr a staff y Coleg yn ymwybodol o faterion amgylcheddol, a darparu amrediad o gyrsiau a hyfforddiant ar bynciau perthnasol.

Sicrhau bod y staff a'r myfyrwyr yn ymwybodol o effeithiau trafndiaeth ar yr amgylchedd, a'u hannog i ddefnyddio dulliau amgen o deithio.

Monitro'n rheolaidd y cynnydd a wneir er mwyn gweld lle gellir gwneud gwelliannau.

Llofnod



Dafydd Evans

(C.E.O.)

SHE-ENV -104-DSdp-V12

Dyddiad rhyddhau: 28.08.20

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

System Rheoli'r Amgylchedd

Cynlluniwyd System y Grŵp o ran Rheoli'r Amgylchedd er mwyn:

- Cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol
- Codi ymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol y Grŵp
- Lleihau'r effeithiau a gwella perfformiad yn barhaus.

Y Prif Weithredwr fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am System Rheoli'r Amgylchedd, gan gynnwys y Polisi Amgylcheddol, ac am ddarparu adnoddau digonol i weithredu a chynnal y system ar sail strategol.

Adolygir System Rheoli'r Amgylchedd yn flynyddol. Wrth adolygu, eir i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Perfformiad amgylcheddol
- Adroddiadau archwilio a diffygion o ran cydymffurfio
- Cadarnhau camau ataliol
- Cyflawniad o gymharu â'r amcanion a'r targedau cyfredol
- Pennu amcanion a thargedau newydd
- Gwirio'r Polisi ynghylch yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y Llawlyfr Amgylcheddol, y Gweithdrefnau a'r Cyfarwyddiadau Gwaith, i edrych a ydynt yn dal yn berthnasol i bolisiau ac amcanion cyffredinol y Grŵp
- Yr anghenion o ran hyfforddiant amgylcheddol
- Agweddau ac effeithiau arwyddocaol
- Effeithiolrwydd y prosiectau amgylcheddol y mae'r Grŵp wedi ymgymryd â hwy

Mae'r dogfennau a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Grŵp yn dal i fodloni gofynion Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gael ar fewnwyd y Grŵp.

Ceir copi o'r adroddiad hwn, ynghyd â gwybodaeth bellach am Goleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Merion-Dwyfor, ar wefan y Grŵp, sef www.gllm.ac.uk

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Agweddau ac Effeithiau

Nodwyd y prif weithgareddau sy'n berthnasol i weithrediadau'r Grŵp yn yr adolygiad amgylcheddol. Ymhlith y gweithgareddau sy'n creu'r agweddau a'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, mae: y defnydd o drydan a nwy, cludiant, y defnydd o bapur, cynhyrchu gwastraff a dŵr.

Caiff arwyddocâd yr agweddau a'r effeithiau eu mesur drwy ddefnyddio matrices blaenoriaethu. Datblygwyd system "goleuadau traffig" i flaenoriaethu'r effeithiau. Mae golau coch yn dynodi bod yr effaith yn arwyddocaol, mae golau oren yn dynodi y gallai'r effaith ddatblygu i fod yn arwyddocaol, ac mae golau gwyrdd yn dynodi nad yw'r effaith yn cael ei ystyried yn arwyddocaol. Cofnodir yn rhain yn y Gofrestr Agweddau ac Effeithiau.

Caiff yr agweddau a'r effeithiau mwyaf arwyddocaol eu cynnwys yn yr amcanion a'r targedau blynyddol, yn dilyn adolygiad blynyddol.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Adolygu Targedau 2020-21

- ❖ Lleihau allyriadau carbon deuocsid yn sgil defnyddio trydan, ar sail data 2018/19:

Y targed a bennwyd o ran lleihau allyriadau carbon a gynhyrchir yn sgil defnyddio trydan oedd lleihad o 2% ar bob safle.

Defnyddiwyd 24.3% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Llandrillo. Defnyddiwyd 9.2% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a defnyddiwyd 16.3% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Menai hefyd.

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 18.6% yn llai o drydan ar draws y Grŵp.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio nwy, ar sail data 2018-19:

Y targed a bennwyd ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio nwy oedd lleihad o 6% ar bob safle.

Yn 2020-21, defnyddiwyd 12.7% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Llandrillo, 7.4% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Menai ac 22.8% ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 11.8% yn y nwy a ddefnyddiwyd ar draws y Grŵp.

Felly, ni chyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio LPG:

Y targed a bennwyd oedd lleihau 2% ar y defnydd a wnaed o LPG yng Nglynllifon, ar sail data 2018-19.

Defnyddiwyd 22.8% yn llai o bropan yn 2018/19.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau allyriadau carbon a gynhyrchir yn sgil teithio ar fusnes y Grŵp:

Lleihau 2% ar y milltiroedd a deithiwyd ar fusnes y Grŵp yn 2018-19.

Yn gyffredinol, cafwyd lleihad o 34.8% yn y milltiroedd a deithiwyd yn yr holl gerbydau.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

- ❖ Lleihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith:

Y targed a bennwyd oedd parhau i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith.

Parheir i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith. Hyd at fis Awst 2020, roedd 219 aelod o staff wedi ymuno â'r cynllun. Roedd 24 o'r rhain wedi ymuno â'r cynllun yn ystod 2019-20.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil defnyddio dŵr:

Y targed a bennwyd oedd lleihau 2% ar y defnydd a wnaed o ddŵr, ar sail data 2018-19.

Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 15.9% yn llai o ddŵr o gymharu â 2018/19.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil defnyddio papur:

Y targed a bennwyd oedd lleihau 2% ar faint o bapur a ddefnyddiwyd, ar sail data 2018-19.

Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 66.5% yn llai o bapur o gymharu â 2018/19.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

- ❖ Lleihau'r effaith ar ddisbyddu adnoddau yn sgil gwaredu gwastraff drwy ei anfon i safleoedd tirlenwi:

Y targed a bennwyd oedd parhau i ailgylchu 99% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Llandrillo, i ailgylchu 50% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 96% o'r gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd Coleg Menai.

Ailgylchwyd 100% o'r gwastraff ar safleoedd Coleg Llandrillo.

Ailgylchwyd 50% o'r gwastraff ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor *

Ailgylchwyd 93% o'r gwastraff yng Ngholeg Menai*

*Ceir rhagor o fanylion am y gwahaniaethau mewn ailgylchu ar dudalen 18

Felly, ni chyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau

Y targed a bennwyd oedd lleihau 5% ar faint o wastraff a gynhyrchwyd ar bob safle, ar sail data 2018-19

Cafwyd lleihad o 18.4% yn y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2020-21 o gymharu â 2018-19.

Felly, cyrrhaeddwyd y targed.

- ❖ Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd:

Y targed a bennwyd oedd parhau i blannu gwrychoedd a choed cymysg erbyn mis Awst 2020 a thu hwnt.

Mae'r gwaith o blannu gwrychoedd a choed yn mynd rhagddo yng Nglynllifon, ac ymgwymerwyd â phrosiect plannu coed sylweddol yn 2020/21, gyda 2,000 o goed cymysg yn cael eu plannu dros 2 hectar.

Felly, cyrrhaeddwyd y targed.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

❖ Codi ymwybyddiaeth staff o'r amgylchedd:

Y targed a bennwyd oedd cynnal sgysiau personol a sgysiau grŵp ym maes Codi Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd mewn adrannau yn ystod 2020/21.

Mae Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd yn hyfforddiant hanfodol yn achos pob aelod staff ac fe'i cyflwynir yn defnyddio meddalwedd iHasco. Mae 92% wedi cwblhau'r hyfforddiant a chaiff llawlyfr ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ei rannu â staff yn flynyddol.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

❖ Ymgysylltu â'r gymuned leol a chyfrannu ati:

Y targed a bennwyd oedd bod dysgwyr y Grŵp i gynnal o leiaf 35 o weithgareddau lle'r oeddent yn defnyddio'u sgiliau yn y gymuned leol yn 2020/21.

Oherwydd y cyfnod clo, cyfyngwyd ar y cyfleoedd i gynnal gweithgareddau y tu allan i adeiladau'r coleg.

Felly, ni chyrrhaeddwyd y targed.

❖ Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd:

Y targed a bennwyd oedd lleihau 4% ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyrdr o'r ynni a ddefnyddir yn yr adeiladau, ac o gludiant a da byw ar sail data 2018/19.

Yn 2020/21, cafwyd gostyngiad o 19.1% mewn allyriadau carbon o gymharu â 2018/19.

Felly, cyrhaeddwyd y targed.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Perfformiad mewn perthynas â'r Amgylchedd

Ynni

Perfformiad 2020-21

Nwy

	kWh		CO2 (kg)	
	2018-19	2020-21	2018-19	2020-21
Coleg Llandrillo	2,733,911 £100,742 (72 kWh/m ²)	3,080,256 £104,364 (81 kWh/m ²)	505,700 (13.9kg CO2/m ²)	718,131 (18.8kg CO2/m ²)
Coleg Meirion-Dwyfor	1,023,453 £52,025 (66 kWh/m ²)	1,256,467 £57,715 (80 kWh/m ²)	189,311 (12.1kg CO2/m ²)	292,933 (18.7kg CO2/m ²)
Coleg Menai	3,145,255 £146,302 (82 kWh/m ²)	3,376,997 £139,266 (88 kWh/m ²)	581,787 (15.1 kg CO2/m ²)	787,313 (20.5 kg CO2/m ²)
Cyfanswm	6,902,619 £299,069 (75 kWh/m²)	7,713,720 £301,345 (84 kWh/m²)	1,276,798 (13.8 kg CO2/m²)	1,798,377 (19.5 kg CO2/m²)

Defnyddiwyd 11.8% yn llai o nwy yn 2020-21 ar draws y Grŵp. Defnyddiwyd 12.7% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Llandrillo, 7.4% yn fwy o nwy ar safleoedd Coleg Menai ac 22.8% ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor.

Arweiniodd y cynnydd yn y defnydd o nwy at gost ychwanegol o £2,276.

Fel rhan o ymdrech gyffredinol i reoli lledaeniad COVID-19, caiff ffenestri eu hagor mewn ystafelloedd er mwyn sicrhau digonedd o awyr iach.

Roedd 2020/21 yn oerach na 2018/19 felly mae hyn yn cyfrif am beth o'r cynnydd yn y defnydd o nwy.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Trydan

	kWh		CO2 (kg)	
	2018-19	2020-21	2018-19	2020-21
Coleg Llandrillo	2,413,697 £400,132 (65 kWh/m ²)	1,826,295 £326,623 (49 kWh/m ²)	994,556 (26.8 kg CO2/m ²)	425,782 (11.5 kg CO2/m ²)
Coleg Meirion Dwyfor	991,603 £172,315 (48 kWh/m ²)	900,627 £173,294 (44 kWh/m ²)	408,590 (19.8 kg CO2/m ²)	209,972 (10.2 kg CO2/m ²)
Coleg Menai	1,915,730 £319,356 (50 kWh/m ²)	1,602,877 £291,204 (40 kWh/m ²)	789,377 (20.5 kg CO2/m ²)	373,695 (9.4 kg CO2/m ²)
Cyfanswm	5,321,030 £891,803 (55 kWh/m²)	4,329,799 £791,121 (44 kWh/m²)	2,192,523 22.8 kg CO2/m²)	1,009,449 10.4 Kg CO2/m²)

Defnyddiwyd 24.3% yn llai o drydan ar safleoedd Coleg Llandrillo, 9.2% yn llai ar safleoedd Meirion-Dwyfor a 16.3% yn llai ar safleoedd Coleg Menai.

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 18.6% yn llai o drydan ar draws y Grŵp gan arbed £100,682.

Roedd nifer o staff yn parhau i weithio gartref yn 20/21 a myfyrwyr yn cael eu haddysgu ar-lein ac ar y safleoedd, a dyna sy'n gyfrifol am ganran fawr o'r arbedion.

Yn ystod haf 2020, gosodwyd paneli ffotofoltäig ar do'r Ganolfan Chwaraeon ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.

Propan

Yng Nglynllifon, defnyddir propan i wresogi a choginio ac fe'i defnyddir yn yr Adran Peirianeg.

	litrau				CO2(kg)	
	2018-19		2020-21		2018-19	2020-21
Glynllifon	93,790	£23,572	72,450	£21,955	141,156	112,687

Defnyddiwyd 22.8% yn llai o bropan, ac roedd yn gost £1,617 yn is.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Cludiant

Perfformiad 2020-21

Cludiant Myfyrwyr

Mae'r Grŵp, ynghyd ag Awdurdodau Addysg Lleol Siroedd Conwy, Dinbych a Fflint, yn darparu cludiant am ddim i fyfyrwyr sydd dan 18 oed ac sy'n byw fwy na thair milltir o'r safle colegol y maent yn ei fynychu.

Cerbydau'r Coleg a'r Milltiroedd a Deithir mewn Cerbydau Preifat

Dull Cludo	2018-19 (milltiroedd)	2020-21 (milltiroedd)	2018-19 (kgCO2e)	2020-21 (kgCO2e)
Ceir y coleg (yn cynnwys faniau bychan)	142,207	60,249	33,586	16,332
Bysiau mini (yn cynnwys faniau mawr)	152,973	80,965	55,324	26,608
Cerbydau preifat (y Grŵp cyfan)	1,257,035	267,911	224,093	72,625
Cyfanswm	1,552,215	409,125	313,003	115,565

Dengys y ffigurau bod staff wedi teithio 14.9% o filltiroedd yn llai yng ngheir a faniau bychan y coleg ac 14.7% o filltiroedd yn llai ym mysiau mini a faniau mawr y coleg. Cafwyd gostyngiad o 39.5% yn y milltiroedd a deithiwyd mewn cerbydau preifat.

Yn gyffredinol, cafwyd gostyngiad o 540,001 o filltiroedd, a 34.8% o gymharu â 2018/19.

Yn 2020-21, y gost yn sgil staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Coleg oedd £138,634, sef arbediad o £381,514 o gymharu â 2018-19.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith mawr ar y defnydd o gerbydau. Wrth i gampysau'r Coleg ddychwelyd i'r 'normal newydd', mae mwyafrif y cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfleusterau fideo gynadledda a dim ond teithio hanfodol sy'n digwydd.

Yn sgil y gostyngiad yn nefnydd ceir y coleg, dychwelwyd y mwyafrif ohonynt.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Darperir manau diogel i storio beiciau ar bob safle, a threfnwyd gyda rhai siopau bod staff sy'n prynu beiciau'n cael gostyngiad o 10%. Er mwyn annog staff i feicio i'r gwaith, mae'r Grŵp wedi sefydlu cynllun beicio i'r gwaith. Mae cyfanswm o 219 aelod o staff wedi ymuno â'r cynllun ers ei sefydlu, gyda 24 yn ymuno yn ystod 2020/21.

Yn 2019, cyflwynwyd y Cynllun Buddion Staff oedd yn galluogi staff i lesio ceir gyfraddau is gan gynnig cyfraddau da iawn ar gyfer cerbydau trydan. Felly roedd staff yn gallu cael cerbydau newydd oedd yn fwy effeithlon i'w rhedeg.

Yn 2020, gosodwyd pwyntiau gwefru trydan ar gampysau Llandrillo-yn-Rhos a Llangefni er mwyn i staff allu gwefru cerbydau trydan ac i'w hannog i ystyried prynu cerbyd trydan.

Mae gan y Coleg ei fan drydan ei hun ar gyfer defnydd arlwyyo neu'r gofalwyr.

Mae'r Grŵp wedi sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael tocyn wythnos i deithio ar fws Arriva am bris gostyngol.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Gwastraff

Perfformiad 2020-21

Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai ailgylchir popeth yn gymysg; yng Ngholeg Llandrillo, caiff y gwastraff ei wahanu. Mae Awdurdodau Lleol yn gwahaniaethu o ran sut maent yn gwaredu gwastraff cyffredinol. Ar gampysau Gwynedd ac Ynys Môn, anfonir yr holl wastraff cyffredinol i safleoedd sy'n creu tanwydd yn deillio o sbwriel, ond ar gampysau siroedd Conwy a Dinbych, caiff y gwastraff cyffredinol ei ddioli ymhellach ac yna'i anfon i safleoedd sy'n creu tanwydd yn deillio o sbwriel. Felly, bydd ffigurau ailgylchu siroedd Conwy a Dinbych yn uwch na rhai Gwynedd a Môn.

Ni anfonwyd unrhyw wastraff o Grŵp Llandrillo Menai i safleoedd tirlenwi. Gan fod Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel yn isel ar yr hierarchaeth gwastraff, mae'r ffigurau wedi'u nodi ar wahân i'r ffigurau ailgylchu.

Safleoedd Coleg Llandrillo

	Cyfanswm y Gwastraff		Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel (kg)		Gwastraff a ailgylchir (kg)		Canran y Gwastraff a Ailgylchir		kgCO2e	
	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21
Llandrillo-yn-Rhos	206,674	170,719	1,215	378	205,459	170,341	99%	100%	4,340	3,585
Y Rhyl	75,916	64,570	411	149	75,505	64,421	99%	100%	1,594	1,356
Abergele	8,472	4,880	61	15	8,411	4,865	99%	100%	177	102
Cyfanswm	291,062	240,169	1687	542	289,375	239,627	99%	100%	6,112	5,044

Yn gyffredinol, cynhyrchodd safleoedd Coleg Llandrillo 17.5% yn llai o wastraff. Arhosodd canran y gwastraff a ailgylchwyd ar 99%.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Safleoedd Coleg Menai

	Cyfanswm y Gwastraff		Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel (kg)		Gwastraff a ailgylchir (kg)		Canran y Gwastraff a Ailgylchir		(kgCO ₂ e)	
	18/19	20/21	18/19	20/21	18/19	20/21	18/19	20/21	18/19	20/21
Llangefni (yn cynnwys Caergybi)	212,645	158,886	22,160	12,042	190,485	146,844	90%	92%	4,466	3,337
Friars	11,500	11,170	127	35	11,373	11,135	99%	100%	242	235
Parc Menai	16,270	11,799	6,595	933	9,675	10,866	59%	92%	342	248
Bangor	44,906	35,400	249	111	44,657	35,289	99%	100%	943	743
Caernarfon	2,940	2,600	1,500	1,320	1,440	1,280	50%	49%	62	55
Cyfanswm	288,261	219,855	30,631	14,441	257,630	205,414	89%	93%	6,053	4,617
Cyfanswm	288,261	219,855	30,631	14,441	257,630	205,414	89%	93%	6,053	4,617

Cynhyrchodd safleoedd Coleg Menai 23.7% yn llai o wastraff. Cododd canran y gwastraff a ailgylchwyd o 89% i 93%.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor

	Cyfanswm y Gwastraff		Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel (kg)		Gwastraff a ailgylchir (kg)		Canran y Gwastraff a Ailgylchir		kgCO2e	
	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21	2018/19	2020/21
Pwllheli (yn cynnwys yr Hafan)	46,710	38,035	27,870	21,755	18,840	16,440	40%	43%	981	799
Glynlifon	68,161	65,198	40,850	38,690	27,311	26,508	40%	41%	1,431	1,369
Dolgellau (yn cynnwys Y Marian Mawr)	91,857	78,060	45,076	30,974	46,781	47,086	51%	60%	1,929	1,639
Cyfanswm	206,728	181,293	113,796	91,419	92,932	90,034	45%	50%	4,341	3,807

Cynhyrnodd safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor 12.3% yn llai o wastraff. Cynyddodd canran y gwastraff a ailgylchwyd o 45% i 50%.

Cynhyrnodd y Grŵp yn gyffredinol 18.4% yn llai o wastraff. Cynyddodd canran y gwastraff a ailgylchwyd o 81% i 83.4%.

Yn 2020, cyflwynodd Undeb y Myfyrwyr gais i Lywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect i Wella'r Amgylchedd a Chreu Dyfodol Cynaliadwy ac yn ddiweddar derbyniwyd £22,000 ar ei gyfer.

Dan arweiniad y myfyrwyr, nod y prosiect yw darparu addysg amgylcheddol a fydd yn ysgogi newid mewn ymddygiad fel y gall holl gymuned y coleg (yn cynnwys staff) gyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr amgylchedd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio ar ddau fideo: 'Canlyniadau amgylcheddol defnyddio plastig untro' ac 'Ymgyrch diffoddwch nhw'.

Ar hyn o bryd mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio ar fideo 1 sef, plastig untro. Bydd y fideos yn cael eu dangos mewn sesiynau cynefino, ar wefan ein sefydliad, ar borth y myfyrwyr - eDrac, ar lwyfannau ein gwefannau cymdeithasol ac ar ein sianel YouTube i'r gymuned ehangach.

Bydd ffeithluniau'n cael eu cynhyrchu ar ddeunydd wedi'i ailgylchu a'u harddangos wrth y ffowntenni dŵr ar bob campws. Bydd y ffeithluniau'n cael eu defnyddio i annog y myfyrwyr i roi'r gorau i ddefnyddio plastig untro a defnyddio'r poteli dŵr y dosbarthod yr Undeb i fyfyrwyr yn Ffeiriau'r Glas a'r Cynadleddau Dysgwyr. Bydd y ffeithluniau'n cynnwys gwybodaeth am effeithiau plastig untro ar faterion fel llygredd, iechyd, bywyd morol ac adar, y gadwyn fwyd ac ôl-troed carbon.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Da Byw Fferm Glynllifon

Da Byw	Nifer bras a stociwyd 2018-19	2018-19 (KgCO ₂ e)	Nifer bras a stociwyd 2020-21	2020-21 (KgCO ₂ e)
Y Fuches Odro	235	278,913	260	308,585
Y Fuches Biff	47	30,080	50	32,000
Moch	50	4,339	500	43,386
Defaid	563	60,474	600	64,448
Ŵyn	700	14,467	750	15,501
Ceffylau	2	638	2	638
Cyfanswm		388,911		464,558

Cynhyrchodd da byw Glynllifon 464,558 KgCO₂e o allyriadau.

Plannu Coed yng Nglynllifon

Math o goed	Arwynebedd (hectarau)	2018-19 (kgCO ₂ e) Cynnydd	Arwynebedd (hectarau)	2020-21 (KgCO ₂ e) Gain
Pren caled/pren meddal	2018-19		2020-21	
Pren caled	0.5	98	0.5	98
pren meddal	2.5	925	1.5	555
Cyfanswm	3	1,023	2	653

Yng Nglynllifon, plannwyd oddeutu 2,000 o goed dros 2 hectar. Ar y cyfan, roedd y coed yn rhai pren meddal gyda rhai rhywogaethau pren caled. Roedd y coed pren caled yn cynnwys: Derw Mes Di-goes, Coed Ceirios, Bedw, Cyll, Celyn. Roedd y coed pren meddal yn cynnwys: Pyrwydd Stica, Pyrwydd Norwy, Pinwydd yr Alban a Gwern. Mae'r carbon a enillir o blannu'r coed yn hafal i 653 KgCO₂e.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Adeiladu Mesurau Effeithlonrwydd Ynni

Celloedd Ffotofoltäig 2020/21

Lleoliad y Mesurydd	2018-19 KWh a Gynhyrchwyd	2018-19 (kgCO ₂ e)	Cynhyrchwyd 2020-21 KWh	2020-21 (KgCO ₂ e) Gain Yr hyn a enillir
MBEC, Llandrillo-yn-Rhos	1,653	681	1,781	415
Glynllifon 1	9,965	4,106	12,423	2,896
Glynllifon 2	2,360	972	2,948	687
Bloc Evans, Y Rhyl	8,934	3,681	10,209	2,380
Canolfan Cefni, Llangefni	12,155	5,008	6,042	1,408
Y Ganolfan Brifysgol, Llandrillo-yn-Rhos	20,025	8,251	23,515	5,482
Peirianeg, Llangefni	18,959	7,812	24,737	5,767
Canolfan Chwaraeon Llandrillo-yn-Rhos			74,908	17,464
Cyfanswm	74,051	30,511	156,563	36,499

Gosodir celloedd ffotofoltäig ar yr holl adeiladau newydd. Yn 2020/21 roedd yr enillion carbon yn 36,499 KgCO₂e.

Defnyddir y ddogfen Ffactorau Trosi Yr Ymddiriedolaeth Garbon wrth gyfrifo'r enillion carbon. Mae'r ffactor trosi ar gyfer trydan yn newid bob blwyddyn yn unol â'r modd y caiff trydan ei gynhyrchu. Mae cynhyrchu trydan yn symud oddi wrth danwyddau ffosil at ddulliau mwy gwyrdd.

Yn ystod haf 2021, gosodwyd dau banel ffotofoltäig 50KW ar doeau'r MBEC a Cholwyn ar gampws Llandrillo-yn-Rhos a gosodwyd dau banel ffotofoltäig 50KW ar doeau'r coleg ar gampws y Rhyl. Cynhwysir yr ynni a gynhyrchwyd o ganlyniad i hyn yn yr ystadegau ar gyfer 2021/22.

Gosodwyd pwyntiau gwefru ceir trydan ar gampysau'r Grŵp yn Llandrillo-yn-Rhos a Llangefni.

Wrth i oleuadau gael eu newid/uwchraddio y drefn yw eu huwchraddio i oleuadau LED. Pan newidir toeon, caiff deunydd insiwleiddio ychwanegol ei osod. Gosodir synwryddion symud mewn adeiladau newydd ac wrth wneud gwaith adnewyddu mawr. Wrth i'r boeleri gael eu newid caiff rhai mwy effeithlon eu gosod yn eu lle.

Boeler sglodion pren sy'n cyflenwi'r gwres yn adeilad PA@G, Glynllifon. Darperir y sglodion pren gan adran goedwigaeth y Coleg.

Yn y Ganolfan Ynni yn Llangefni, defnyddir gwres o'r ddaear a phibelli haul i wresogi'r adeilad a chynhyrchu golau ar gyfer yr ystafelloedd ar y llawr cyntaf.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr

Perfformiad 2020-21

Cyfrifwyd yr allyriadau carbon deuocsid ar sail yr ynni a ddefnyddiwyd yn yr adeiladau, ac o gludiant a da byw.

Agwedd	Kg CO2 2018-19	Kg CO2 2020-21
Trydan	2,192,523	1,009,449
Nwy	1,276,798	1,798,377
LPG	141,156	112,687
Cludiant	313,003	115,565
Gwastraff	16,506	13,468
Da Byw Fferm Glynllifon	388,911	464,558
Yr hyn a enillir o Blannu Coed yng Nglynllifon	--1,023	-653
Yr hyn a enillir o Baneli Ffotofoltäig	-30,511	-36,499
Cyfanswm	4,297,363	3,476,952

Yn 2020/21, cafwyd gostyngiad o 19.1% mewn allyriadau carbon o gymharu â 2018/19.

Roedd ein hallryiadau carbon yn cyfateb i 165.6 kgCO₂fesul dysgwr

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Dŵr

Perfformiad 2020-21

Safleoedd Coleg Llandrillo

Safle	2018-19		2020-21	
	Defnydd (m ³)	cost	Defnydd (m ³)	cost
Llandrillo-yn-Rhos	12,645	£40,456	8,667	£27,678
Y Rhyl	3,124	£10,588	2,067	£7,097 Dinbych
	468	£1,569	88	£307
Cyfanswm	16,237	£52,613	10,822	£35,082

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 33.3% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Llandrillo. Yn ogystal, arbedwyd £17,531 mewn costau o gymharu â 2018/19. Roedd Coleg Dinbych yn wag yn 2020/21 ac fe'i gwerthwyd yn ystod Haf 2021.

Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor

Safle	2018-19		2020-21	
	Defnydd (m ³)	cost	Defnydd (m ³)	cost
Dolgellau (yn cynnwys Y Marian Mawr)	1,982	£8,102	908	£4,514
Pwllheli (yn cynnwys Hafan)	1,177	£4,558	695	£2,942
Glynllifon	25,336	£35,248	24,917	£34,490
Cyfanswm	28,495	£47,908	26,520	£41,946

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 6.9% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor – arbediad o £5,962 o gymharu â 2018/19.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Safleoedd Coleg Menai

Safle	2018-19		2020-21	
	Defnydd (m ³)	cost	Defnydd (m ³)	cost
Bangor	4,768	£16,857	3,585	£12,476
Llangefni	5,769	£19,402	6,400	£20,720
Parc Menai	1,028	£4,647	340	£2,142
Friars, Bangor	1,088	£3,727	664	£2,357
Caergybi	158	£586	43	£230
Cyfanswm	12,811	£45,219	11,032	£37,925

Yn gyffredinol, defnyddiwyd 13.9% yn llai o ddŵr ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor – arbediad o £7,294.

Lledled y Grŵp, defnyddiwyd 15.9% yn llai o ddŵr o gymharu â 2018/19 - arbediad o £30,787.

Yn adeilad y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC) yn Llandrillo-yn-Rhos, PA@G yng Nglynllifon a'r Ganolfan Beirianeg yn Llangefni cynaeafir dŵr glaw.

Mae ffowntenni dŵr wedi'u gosod ledled y Grŵp lle gellir ail-lenwi poteli dŵr a helpu i leihau'r plastig sy'n cael ei wastraffu.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Papur

Perfformiad 2020-21

	Y papur a ddefnyddiwyd (rimau)	
	2018-19	2020-21
Safleoedd Coleg Llandrillo	7,641	2,840
Safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor	3,206	1,810
Safleoedd Coleg Menai	5,875	950
Cyfanswm	16,722	5,600

Yn gyffredinol, mae'r Grŵp wedi parhau i ddefnyddio llai o bapur. Ledled y Grŵp, defnyddiwyd 66.5% yn llai o bapur o gymharu â 2018/19.

Anogir staff i brynu papur wedi'i ailgylchu 100%. Lliw llwydwyn sydd i'r papur ac mae'n rhatach na phapur argraffu a llungopiö arferol. Papur wedi'i ailgylchu oedd 5.2% o'r papur a brynwyd yn 2020/21.

Parheir i roi lwfans argraffu i fyfyrwyr a chaiff staff wybod faint mae'n ei gostio bob tro y byddant yn argraffu dogfen. Mae pob argraffwr wedi'i ragosod i argraffu ar ddwy ochr y papur.

Ledled y Grŵp, mae dyfeisiau amlswyddogaethol ychwanegol nad oes cyfyngu ar eu defnydd.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Perfformiad 2020-21

Mae'r Rheolwr Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd, y Cynghorydd Amgylcheddol a staff cymwys eraill yn darparu hyfforddiant cyffredinol i staff a myfyrwyr ym maes ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.

Mae'r holl ofalwyr wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â Gollyngiadau.

Mae cyfres o gyrsiau ar-lein gan iHasco wedi'u rhannu â phob aelod staff eu cwblhau sy'n cynnwys cwrs ar ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Atal Llygredd

Perfformiad 2020-21

Datblygwyd cynllun cyffredinol o ran ymateb i ollyngiadau ar gyfer safleoedd lle'r aseswyd bod y risg o lygru yn sgil gollyngiadau yn isel. Mae'r Grŵp wedi datblygu Cynlluniau Llygredd ar gyfer Llandrillo-yn-Rhos, Y Rhyl, Glynllifon a Llangefni, ac mae'r staff allweddol wedi cael hyfforddiant i ymdrin â gollyngiadau.

Mae pob maes yn cadw rhestrau o gemegau ac yn storio cemegau dan glo mewn cypyrddau pwrpasol. Cedwir citiau gollyngiadau a defnyddiau amsugno gollyngiadau mewn llefydd priodol.

Y Gadwyn Gyflenwi

Perfformiad 2020-21

Mae'r Rheolwr Caffael yn gyfrifol am fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd wrth ddyfarnu contractau cyflenwi.

Rhaid i bob contractwr adeiladu ar gyfer contractau mawr fod yn Adeiladydd Ystyriol cofrestredig. Caiff pob safle sydd wedi cofrestru ar y Cynllun ei fonitro gan weithiwr profiadol o'r diwydiant er mwyn asesu ei berfformiad yn erbyn wyth pwynt y Cod Ymarfer Ystyriol, sef Ystyried Eraill, Ystyried yr Amgylchedd, Glendid, Bod yn Gyfydog Da, Parchu Eraill, Diogelwch, Bod yn Gyfrifol a Bod yn Atebol.

Yn unol â'r adran sy'n ymwneud â'r amgylchedd, rhaid i'r contractwr fod yn ymwybodol o effaith y safle ar yr amgylchedd, gan leihau cymaint â phosibl ar effeithiau'r sŵn, y golau a'r llygredd aer. Dylid gwneud ymdrech i ddethol a defnyddio adnoddau lleol bob tro posibl. Dylid rhoi sylw i reoli gwastraff: lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu defnyddiau bob tro posibl.

Mae gofyn i gontractwyr fynd i sesiwn gynefino, lle cânt wybod am bryderon y Grŵp o safbwynt yr amgylchedd.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Deddfwriaeth

Perfformiad 2020-21

Mae'r Grŵp wedi llunio Cofrestr o Ofynion Cydymffurfio, sy'n nodi'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i'w weithrediadau.

Bydd y Cydlynnydd Amgylcheddol yn diweddarau'r gofrestr yn ôl y galw, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan Croner, Tarian ac IEMA. Bydd y Grŵp yn parhau i gyflawni ei Ddyletswydd Gofal wrth waredu gwastraff, drwy ddefnyddio cludwyr trwyddedig a thrwy gadw Nodiadau Trosglwyddo am y cyfnod gofynnol.

Archwiliadau

Perfformiad 2020 - 2021

Cynhaliwyd yr archwiliadau a ganlyn yn 2020-21

Ebrill 2021

Gwyddoniaeth, (Dolgellau); Categori: Boddhaol

Trin Gwallt a Therapi Harddwch (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Arlwy (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Celf a Serameg (Dolgellau): Categori: Boddhaol

Gweithdai Weldio (Llangefni): Categori: Boddhaol

Peirianeg (Marian Mawr, Dolgellau); Categori: Boddhaol

Adeiladu (Marian Mawr, Dolgellau): Categori: Boddhaol

Peirianeg forol (Hafan, Pwllheli); Categori: Sylw - angen hambwrdd 'spill tray' mwy i storio olewau - cwblhawyd

Celfyddydau (Parc Menai, Bangor); Categori: Sylw - angen allwedd ar gyfer cwpwrdd storio cemegau, taflenni MSDS/COSHH ddim ar y safle - cwblhawyd

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Mai 2021

Gwyddoniaeth, (Pwllheli); Categori: Boddhaol

Gwyddoniaeth (Bangor); Categori: Boddhaol

Arlwyo (Bangor, Friars); Categori: Boddhaol

Trin Gwallt a Therapi Harddwch (Bangor, Friars); Categori: Boddhaol

Fferm (Glynllifon); Categori: Sylw - angen tacluso rhai ardaloedd

Gweithdy Peirianeg (Llangefni); Categori: boddhaol

Adeiladu (Llangefni); Categori: boddhaol

Gweithdy Peirianeg (Glynllifon); Categori: boddhaol

Modurol (Llangefni); Categori: boddhaol

Bioamrywiaeth

Perfformiad 2020-21

Mae gan bob un o safleoedd y Grŵp amgylchedd unigryw. Ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, datblygwyd llain bywyd gwyllt ar un o'r ffiniau a cheir ardal gadwraeth wrth ymyl y Ganolfan Brifysgol; mae campws Y Rhyl y drws nesaf i safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae rhan o gampws Glynllifon yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac yn ardal cadwraeth arbennig. Gosodwyd blychau ystlumod yn y coed ar y safle. Mae campws Llangefni (Pencraig) yn ffinio ar dir amaethyddol.

Mae'r Grŵp wedi cadw'r corstir ar safle Llandrillo-yn-Rhos. Mae'r myfyrwyr Dysgu'n Annibynnol wedi cymryd ardal y pwll dan eu gofal ac maent yn ei gynnal a'i gadw.

Plannwyd gwrychoedd a choed yng Nglynllifon.

Sefydlwyd Grŵp Bioamrywiaeth sy'n cynnwys staff sydd â diddordeb yn y maes ac sy'n awyddus wella bioamrywiaeth ar gampysau'r Coleg.

Nod y Grŵp yw cynyddu'r fioamrywiaeth sydd ar ei safleoedd lle bynnag y bo modd.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Ynni Adnewyddadwy

Perfformiad 2020-21

Ceir Uned Technoleg Adnewyddadwy yn Llandrillo-yn-Rhos ac yn Llangefni. Ymhlith y technolegau sydd ar gael, mae:

Celloedd ffotofoltäig, system gwresogi dŵr ag ynni'r haul, a thyrbinau gwynt.

Yn adeilad y Ganolfan Forol ac Amgylchedd Adeiledig (MBEC), defnyddir ynni'r haul i gynhyrchu trydan ac i gynhesu dŵr.

Yn y Ganolfan Brifysgol ar gampws Llandrillo-yn-Rhos ac yng Nghanolfan Cefni ar gampws Llangefni defnyddir paneli solar i gynhyrchu ynni.

Yn adeilad PA@G yng Nglynllifon, defnyddir ynni'r haul i gynhyrchu trydan a defnyddir boeler sglodion pren i wresogi.

Yn y Ganolfan Ynni yn Llangefni, defnyddir gwres o'r ddaear i wresogi'r adeilad, a phaneli solar i gynhyrchu ynni.

Yn ystod haf 2020, gosodwyd panel ffotofoltäig 100KW ar do newydd y Ganolfan Chwaraeon ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.

Yn ystod haf 2021, gosodwyd dau banel ffotofoltäig 50KW ar doeau'r MBEC a Cholwyn ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.

Gosodwyd dau banel ffotofoltäig 50KW ar doeau'r coleg ar gampws y Rhyl.

Gosodwyd pwyntiau gwefru ceir trydan ar gampysau'r Grŵp yn Llandrillo-yn-Rhos a Llangefni.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Y Gymuned

Perfformiad 2020-21

Mae'r Grŵp yn annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Oherwydd pandemig y Coronafeirws, cafodd y mwyafrif o weithgareddau'r myfyrwyr eu canslo oherwydd y cyfnod clo a'r angen i gadw pellter.

Dyma rai i'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2020-21:

1. Myfyrwyr Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn codi sbwriel ar draethau lleol, Pen y Gogarth a Pharc Cenedlaethol Eryri
2. Myfyrwyr Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn creu ac yn atgyweirio llwybrau ym Mharc Cenedlaethol Eryri
3. Myfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol Llandrillo wedi bod yn casglu sbwriel ar gampws Llandrillo-yn-Rhos a'r cyffuniau.
4. Myfyrwyr SBA Llandrillo-yn-Rhos wedi plannu coed a gafwyd gan 'Coed Cadw' (Woodland Trust)
5. Myfyrwyr Iechyd a Gofal Llandrillo-yn-Rhos wedi cynnal ymgyrch Nadolig yn apelio am deganau ar gyfer North Wales Superkids yn y Rhyl.
6. Aelod staff wedi cymryd rhan yn 'March the Month' drwy gerdded bob dydd yn ystod mis Mawrth 2021 a chodi arian at elusen Cancr y Brostad.
7. Aelodau'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol wedi bod yn casglu sbwriel ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.

Grŵp Ffocws Amgylcheddol

Perfformiad 2020-21

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol traws golegol, a gadeirir gan yr Uwch Gyfarwyddwr (Gwasanaethau Corfforaethol). Mae'r grŵp hwn yn adolygu materion amgylcheddol ac yn ysgogi pawb i gefnogi newidiadau ymddygiadol ar bob safle.

Mae'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol yn adrodd i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Cyfathrebu

Perfformiad 2020-21

Mae cyfathrebu'n rhan bwysig o System Rheoli'r Amgylchedd. Cylchlythyr misol a anfonir ar e-bost at bob aelod o staff yw'r 'Llais'. Yn rheolaidd, cynhwysir eitemau amgylcheddol yn y cylchlythyr hwn. Mewn Llawlyfr Amgylcheddol, sy'n amlinellu materion amgylcheddol yn y Grŵp, cofnodir canlyniadau'r flwyddyn flaenorol, gan awgrymu sut y gall staff wella perfformiad y Grŵp.

Ystyrir ei bod yn hanfodol cynnwys myfyrwyr yn y broses o wneud penderfyniadau, a cheir cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd a'r Grŵp Ffocws Amgylcheddol.

Cedwir cofrestr cyfathrebu yn yr adran Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd, er mwyn cofnodi ymholiadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r amgylchedd gan staff, myfyrwyr neu'r cyhoedd, ynghyd â'r camau a gymerwyd.

Yn ystod eu cyfnod cynefino, caiff staff newydd hyfforddiant gan y tîm Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd.

Targedau i'r Dyfodol

Bydd y Grŵp yn parhau i fodloni gofynion Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Bydd y Grŵp yn parhau i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac yn parhau i wella ei berfformiad amgylcheddol.

Bydd y Grŵp yn parhau i annog ei fyfyrwyr i werthfawrogi eu hamgylchedd ac i gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Amcanion a Thargedau 2021-22

Oherwydd pandemig y coronafeirws, mae'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn y defnydd o ynni, cludiant, dŵr a phapur yn uwch yn 2020-21 na'r hyn fyddai wedi bod yn bosibl fel arfer ac felly nid yw'r ffigurau'n adlewyrchu blwyddyn 'arferol'.

Felly mae targedau 2021-22 wedi'u gosod ar sail data 2018-19 gan ystyried y targedau ddylai fod wedi'u cyrraedd yn 2019-20 a 2020-21 a'r targedau ychwanegol a fyddai wedi cael eu gosod ar gyfer 2021-22. Yr unig eithriad i hyn yw'r targed ar gyfer defnydd ynni. Fel rhan o ymdrech gyffredinol i reoli lledaeniad COVID-19, caiff ffenestri eu hagor mewn ystafelloedd er mwyn sicrhau digonedd o awyr iach ac ar yr un pryd mae angen digon o wres fel bod tymheredd yr ystafelloedd yn gyfforddus. Felly, mae targed defnydd ynni 2021-22 wedi'i bennu i gynnal neu leihau'r defnydd o ynni yn 2021-22 i gyfateb â 2020-21.

Amcan: Leihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio trydan

Targed: Defnyddio 3% yn llai o drydan, ar sail data 2018-19

Amcan: Leihau allyriadau carbon deuocsid yn sgil defnyddio nwy.

Targed: Cynnal neu leihau'r defnydd o nwy ar bob safle yn seiliedig ar ddata 2020-21.

Amcan: Leihau allyriadau carbon yn sgil defnyddio LPG

Targed: Defnyddio 3% yn llai o LPG yng Nglynllifon, ar sail data 2018-19

Amcan: Leihau allyriadau carbon yn sgil teithio ar fusnes y Grŵp

Targed: Leihau 3% ar y milltiroedd a deithiwyd ar fusnes y Grŵp yn 2018-19.

Amcan: Leihau allyriadau carbon yn sgil teithio i'r gwaith

Targed: Parhau i hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith.

Amcan: Leihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau

Targed: Defnyddio 3% yn llai o ddŵr, ar sail data 2018-19

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau
Targed: Lleihau 3% ar faint o bapur a ddefnyddiwyd yn ystod 2018-19

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau.
Targed: Parhau i ailgylchu'r un faint o wastraff, gan ailgylchu 99% o'r gwastraff a gynhrychir ar safleoedd Coleg Llandrillo, 55% o'r gwastraff a gynhrychir ar safleoedd Coleg Meirion-Dwyfor a 96% o'r gwastraff a gynhrychir ar safleoedd Coleg Menai.

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar y defnydd o adnoddau.
Targed: Lleihau 10% ar faint o bapur a ddefnyddiwyd ar bob safle ar sail data 2018-19

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd
Targed: Parhau i blannu gwrychoedd a choed cymysg erbyn mis Awst 2022 a thu hwnt.

Amcan: Codi ymwybyddiaeth staff o'r amgylchedd
Targed: Parhau i gynnig hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd ar-lein i staff. Diweddarau a chyhoeddi Llawlyfr Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd i staff bob blwyddyn.

Amcan: Ymgysylltu â'r gymuned leol a chyfrannu ati.
Targed: Staff a dysgwyr y Grŵp i gynnal o leiaf 35 o weithgareddau lle maent yn defnyddio'u sgiliau yn y gymuned leol yn 2021-22.

Amcan: Lleihau effaith y Grŵp ar newid yn yr hinsawdd
Targed: Lleihau 6% ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o'r ynni a ddefnyddir yn yr adeiladau, ac o gludiant a da byw ar sail data 2018/19.

Adolygiad Blynyddol 2020/21

System Rheoli'r Amgylchedd (EMS)

(yn cynnwys Amcanion a Thargedau ar gyfer 2021/22)

Datganiad Amgylcheddol / Dilysu'r Adroddiad Amgylcheddol

Cafodd y wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Amgylcheddol hwn ei samplu a'i dilysu gan archwiliwr y Ddraig Werdd a ddyfarnodd fod yr asesiad yn ddarlun teg a chywir o weithgareddau a pherfformiad amgylcheddol y sefydliad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio o fewn cylch gorchwyl diffiniedig y sefydliad.

Prif Archwilydd: Robert Williams

Y Sefydliad Archwilio: Groundwork Wales

Dyddiad yr archwiliad:

Yn ddilys tan:

Nid yw'r ffaith fod yr Adroddiad Amgylcheddol wedi'i ddilysu'n cadarnhau bod System y sefydliad o ran Rheoli'r Amgylchedd yn cyrraedd Safon y Ddraig Werdd. Gellir cael cadarnhad o'r ardystiad drwy gael copi dilys o dystysgrif y Ddraig Werdd neu drwy ymweld â gwefan y Ddraig Werdd ar www.greendragonems.com.

Dilysiad y Datganiad/yr Adroddiad Amgylcheddol

Mae'r gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad/ yr Adroddiad yma wedi ei brofi a'i ddilysu gan archwiliwr y Ddraig Werdd ac mae'r gwybodaeth yn asesiad teg a chywir o weithgareddau a prefformiad amgylcheddol y sefydliad tros y flwyddyn diwethaf sydd oddifewn i sgôp diffiniedig y sefydliad.

Archwiliwr Arweiniol: Robert Williams

Sefydliad Archwilio: Groundwork Cymru

Dyddiad yr Archwiliad:

Dilys Tan:

Nid yw dilysu'r Datganiad/Adroddiad yn cadarnhau ardystiad y Sustem Rheoli Amgylcheddol yn erbyn Safon y Ddraig Werdd. Fe all gael cadarnhad o ardystiad drwy gael copi dilys o dystysgrif Draig Werdd y sefydliad neu drwy ymweld â safle we'r Ddraig Werdd yn www.greendragonems.com